**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 17 Mai 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Paula O'Connor (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | A J Jeffery | J W Jones |
| M W Locke | S Pritchard | L V Walton |

**Aelod(au) Lleyg**

David Roberts

Philip Sharman

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Jeremiah | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Sue Reed | Swyddog Datblygu Adeiladau Cymunedol |
| Jamie Rewbridge | Rheolwr Strategol Partneriaethau Hamdden, Iechyd a Lles |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

Gillian Gillett Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr M B Lewis a T M White

Julie Davies a Non Jenkins

---

## 116 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 117 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol: -

Cofnod Rhif 111 – Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 – Diwygio paragraff 5, brawddeg 3 i'w darllen fel a ganlyn: -

'Cafwyd trafodaethau ynghylch maint y cynllun, adnodd hysbys Archwilio Mewnol a'r potensial ar gyfer profi effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir yn hytrach na phrofi cydymffurfiaeth â gweithdrefnau ariannol yn ymwneud â meysydd risg is.

## 118 Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23 i'r Pwyllgor ei adolygu a gwneud sylwadau arno cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyngor.

Diolchodd i Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu gwaith ac ychwanegodd fod yr adroddiad yn dangos ehangder y gwaith a gwmpesir yn ystod y flwyddyn a'r heriau a wynebir. Roedd hefyd yn rhoi sicrwydd o ran y meysydd risg sylweddol.

Trafododd/amlinellodd y Pwyllgor y canlynol: -

- Dileu'r gair 'drafft' o baragraffau 2.5, 2.6 a 2.7 o'r adroddiad.
- Paragraff 1.8 – cynnwys manylion aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a'i Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Paragraff 1.9 – diwygio'r ail frawddeg i ddarllen 'ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2022-2023'.
- Paragraff 1.9 – diwygio brawddeg tri i ddarllen '....Cynllun Corfforaethol y cyngor, 'Darparu Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy.....'
- Paragraff 1.9 – diwygio'r frawddeg olaf i 'Cytunodd y Cabinet ar y Strategaeth ym mis Hydref 2022 ac mae trefniadau ar waith i gyflwyno'r Strategaeth'.
- Paragraff 1.19 – Ehangu i esbonio natur heriau sylweddol.
- Paragraff 3.25 – newid y frawddeg olaf i '....Rhagfyr 2022'.
- Paragraffau 5.1 a 5.3 – Symud brawddegau dau a thri o baragraff 5.3 i ddiwedd paragraff 5.1.
- Paragraff 5.4 – diwygio i nodi bod y Pwyllgor wedi cyfarfod ar 11 achlysur, nid 12.

**Penderfynwyd** cytuno ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-2023 ac, yn amodol ar ychwanegu'r gwelliannau a amlygwyd gan y Pwyllgor, ei anfon i'r cyngor i'w gymeradwyo.

## 119 Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23.

Cyflwynodd Simon Cockings, Prif Archwiliwr, adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol 2022/23 ac a oedd yn cynnwys barn y Prif Archwilydd ar gyfer 2022/23, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Darparwyd Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 hyd at 31 Mawrth 2023 yn Atodiad 1. Amlinellwyd rhestr gyflawn o bob archwiliad a gwblhawyd yn ystod 2022-23, ynghyd â lefel y sicrwydd a nifer yr argymhellion a wnaed ac a dderbyniwyd yn Atodiad 2 a manylwyd ar ddangosyddion perfformiad 2022-23 yn Atodiad 3.

Darparwyd manylion y canlynol: -

- Adolygiad o 2022/23;
- Gwaith dilynol a gwblhawyd;
- Dangosyddion perfformiad;
- Rhaglen sicrhau ansawdd a gwella a datganiad o gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS);
- Datganiad o annibyniaeth sefydliadol;
- Barn y Prif Archwilydd am y gwaith a gwblhawyd yn 2022-23.

Tynnodd y Prif Archwiliwr sylw at yr absenoldeb salwch o fewn y Tîm Archwilio Mewnol a sut yr oedd hynny wedi effeithio ar gyflawni Cynllun Archwilio Mewnol 2022-2023.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Manteision gwahodd swyddogion i gyfarfodydd i ddarparu diweddariadau cynnydd mewn perthynas ag adroddiadau cymedrol a rôl y Pwyllgor wrth eu cynorthwyo/cefnogi i wella materion.
- Adroddiadau archwilio a gwblhawyd yn y flwyddyn yn sefydlu nifer yr adroddiadau gohiriedig / etifeddiaeth, y gwaith sydd yn y cam drafft ar hyn o bryd a'r adroddiadau a gynhwysir yn y farn, effaith barhaus COVID-19 a arweiniodd at drosglwyddo gwaith o flynyddoedd blaenorol.
- Manylion gweithgareddau archwilio nad ydynt wedi'u cynnwys mewn adroddiadau, e.e. ardystio grant.
- Sail barn y Prif Archwiliwr.
- Cadarnhad nad oedd unrhyw feysydd pryder wedi'u nodi gan y Prif Archwiliwr y tu hwnt i'r 6 adroddiad cymedrol a nodwyd eisoes.
- Adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn yr Awdurdod a chynnwys hyn o bosib fel rhan o gasgliad cyffredinol y Prif Archwiliwr.
- Cadarnhad y byddai canlyniadau'r Adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol yn cael eu bwydo i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Y sefyllfa adnoddau bresennol o fewn y Tîm Archwilio Mewnol.

Amlygodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Prif Archwiliwr Mewnol gyda swyddi gwag/salwch a nododd y ddarpariaeth i hyn barhau o fewn Cynllun Archwilio 2023-2024. Ychwanegodd fod y Prif Archwiliwr wedi seilio ei farn ar y gwaith a gwblhawyd, gan amlygu nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol i'w hadrodd ar hyn o bryd a rhoddodd sicrwydd bod yr Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol ar y gweill, gan ganiatáu amser i adrodd ar unrhyw faterion arwyddocaol a ganfuwyd.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor eu diolch i'r Prif Archwiliwr a'r Tîm Archwilio Mewnol am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn flaenorol.

Diolchodd y Prif Archwiliwr i'r Tîm Archwilio Mewnol am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi'r gwaith a wnaed gan y Tîm Archwilio Mewnol yn 2022/23;
2) Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol;
3) Nodi barn y Prif Archwilydd.

## 120 Y Diweddaraf am Osodiadau Cyrchfan .

Cyflwynodd Sue Reed, Rheolwr Datblygu Cymunedau, Partneriaethau a Chyrchfannau a Jamie Rewbridge, Rheolwr Strategol Hamdden, Partneriaethau, Iechyd a Lles adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad mewnol o gosodiadau cyrchfan yn 2022.

Amlinellwyd bod y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad archwilio ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a roddwyd ar waith.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran Maes Carafanau Bryn y Mwmbwls. Cadarnhawyd hefyd fod y cabanau sydd ar gael i'w rhentu yn Langland wedi cael ymateb cadarnhaol ac mae pob un wedi'i rentu a £98,000 wedi ei dderbyn ymlaen llaw drwy systemau ar-lein.

Cadarnhaodd y Prif Archwiliwr fod Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad dilynol ar hyn o bryd a byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd yn adroddiad Chwarter 1 2023-2024.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Symud i gyfrifon ar-lein ond parhau i ddarparu ar gyfer rhai cwsmeriaid drwy'r post.
- Y newid enfawr o'r sefyllfa flaenorol, sut y cafodd yr holl ddyledion a oedd yn ddyledus eu clirio a'u bod yn gyfredol â'u hamserlenni ad-dalu.

Diolchodd y Swyddogion i'w staff a'u cydweithwyr Archwilio Mewnol am eu cefnogaeth drwy gydol y broses.

## 121 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022/23.

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol adroddiad a oedd yn darparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) drafft 2022/23 a gofynnodd am sylwadau'r Pwyllgor cyn i'r adroddiad gael ei anfon ymlaen i'r cyngor i'w gymeradwyo fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau fframwaith diwygiedig y Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ar y Côd Llywodraethu Corfforaethol, a oedd yn manylu ar y 7

egwyddor a ddarparwyd o fewn y fframwaith. Amlinellwyd hefyd fanylion sut roedd yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith, ynghyd â materion arwyddocaol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn.

Darparwyd DLlB 2022/23 drafft yn Atodiad A a byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei hadrodd wrth y cyngor cyn iddo gael ei lofnodi gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'i gyhoeddi gyda Datganiad Cyfrifon archwiliedig 2022/23.

Cadarnhaodd y Cynghorydd L V Walton (cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Llywodraethu) fod y broses yn parhau'n gadarn a bod adrannau'n parhau i dynnu sylw at faterion newydd a sylweddol yn brydlon.

Ychwanegodd Ben Smith, Cyfarwyddwr Cyllid, fod uwch-reolwyr wedi trafod y ddogfen ac wedi cael sicrwydd gan y DLlB a oedd yn gyson ac yn drylwyr.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Agweddau penodol, e.e. nid yw'r Fargen Ddinesig ar gael yn llawn i'r cyhoedd ac ar y cyfan, sut roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ddogfen ddefnyddiol iawn.
- Ystyried dileu dyblygu yn yr adroddiad yn y dyfodol i'w wneud yn gryno, yn fwy cynnil ac i ddarparu mwy o effaith;
- Mae Fframwaith Solace CIPFA yn fodel arfer da i'w ddilyn.
- Gellir dadlau bod effaith COVID-19 yn llai drwy gydol 2022-2023.
- O bosib amlygu ymhellach nifer y materion llywodraethu yn Adran 13.12 yr adroddiad terfynol.
- Amlygu'r gwahaniaeth rhwng llywodraethu risgiau a'r risgiau eu hunain.
- Adran 11.15 – cynnwys nodiadau'r Cyfarfod Blynyddol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd L V Walton a'r swyddogion am eu gwaith gyda'r Gweithgor Llywodraethu, a oedd o fudd i swyddogion a'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd:** -

1) cadarnhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ar yr amod bod y gwelliannau a amlygwyd gan y Pwyllgor yn cael eu hychwanegu.
2) Cylchredeg yr adroddiad diwygiedig i'r pwyllgor.
3) Anfon yr adroddiad i'r cyngor i'w gymeradwyo fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

## 122 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Hunanasesu arfer da.

Cyflwynodd Ben Smith, Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn hunanasesiad Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o arfer da.

Amlinellwyd bod yr hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor a'i feincnodi yn erbyn arfer da CIPFA wedi'i gwblhau ym mis Mawrth / Ebrill 2023. Hwyluswyd y broses gan staff yr Adran Gyllid a oedd yn gweithredu ar wahân i'r Adran Archwilio Mewnol ac Aelodau'r Pwyllgor.

Ychwanegwyd bod holl Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn yr holiadur a'r offeryn hunanwerthuso rhyngweithiol a gyhoeddwyd gan CIPFA. Crynhowyd y canlyniadau yn Atodiad 1, darparwyd copi o'r offeryn CIPFA yn Atodiad 2 a darparwyd yr adolygiad blaenorol a hwyluswyd gan Archwilio Cymru yn Atodiad 3.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cyfarfod Aelodau'r Pwyllgor â chynrychiolwyr Archwilio Cymru yn dilyn y cyfarfod.
- Anghenion hyfforddi'r Pwyllgor yn y dyfodol, yn enwedig darparu cynllun hyfforddi, dealltwriaeth o brosesau archwilio cyffredinol, deall y derminoleg a ddefnyddir a mesur meini prawf a ddefnyddir.
- Ystyried ac ehangu gwaith ar bob maes craidd.
- Gwelliannau mewn effeithlonrwydd / effeithiolrwydd ers cyflwyno aelodau lleyg i'r Pwyllgor.
- Y fantais fawr o gael swyddogion i ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiadau archwilio cymedrol a sut mae hyn yn ysgogi gwelliannau.

Dywedodd y Cadeirydd mai holl bwrpas y Pwyllgor oedd bod yn heriol yn adeiladol er mwyn gwella gwasanaethau'r cyngor. Ychwanegodd ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn cefnogi ac yn helpu swyddogion i wella gwasanaethau a chael effaith gadarnhaol.

### 123 Archwilio Cymru - Cyngor Dinas a Sir Abertawe - Cynllun Archwilio Amlinellol 2023.

Cyflwynodd Gillian Gillett, Archwilio Cymru, Gynllun Archwilio Amlinellol 2023.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar gyfrifoldebau statudol yr archwiliwr allanol, gweithgareddau / allbynnau cynlluniedig y tîm archwilio, cyfrifoldebau archwilio, yr archwiliad o ddatganiadau ariannol, gwaith archwiliad o berfformiad, y tîm ffïoedd ac archwilio.

Amlinellwyd y dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni'r gwaith archwilio a'r allbynnau arfaethedig, ynghyd â'r ymrwymiad i ansawdd archwilio Archwilio Cymru. Roedd Atodiad 1 yn darparu'r newidiadau allweddol i ISA 315 a'r effaith bosib ar y cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Archwilio Cymru am yr adroddiad.

### 124 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 'er gwybodaeth'.

### 125 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth’.

Holodd y Pwyllgor pryd y byddai cyfarfodydd yn dychwelyd i gylch chwe wythnos. Nodwyd y byddai dyddiadur y cyngor yn cael ei drafod yng nghyfarfod blynyddol y cyngor ar 18 Mai 2023. Os cytunir ar hyn, byddai cyfarfodydd pwyllgor yn dechrau cylch chwe wythnos gan ddechrau ar 14 Mehefin 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**Cadeirydd**